


JACQUELINE WILSON

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

Gwen, Fy Mrawd

Lluniau gan
DAVID ROBERTS



Cynhwys


Pennod 1

5



Pennod 2

15



Pennod 3

21



Pennod 4

27



Pennod 5

32



Pennod 6

38



Pennod 1

‘DWI DDIM YN MEDDWL fy mod i eisiau mynd i’r cynllun haf eleni,’ meddai Gwyn amser brecwast.

‘Wyt, siŵr, rwyd ti eisiau mynd,’ meddai Dad yn bendant.

‘Fe fydd Sara’n gofalu amdanat ti,’ meddai Mam, gan roi ei braich am Gwyn a’i gwtsio.

Sara dw i. Fi yw chwaer fawr Gwyn a fi sydd bob amser yn gorfod gofalu am fy mrawd bach.



‘Bydd y cynllun haf yn wych eleni,’ meddwn i, gan lyfu’r mêl oddi ar fy nhost. ‘Bydd yna bêldroed a gêmau cyfrifiadur a drama a llwythi o bethau eraill. Byddi di’n dwlu arno fe, Gwyn,’ meddwn i, ond doeddwn i ddim yn hollol siŵr am hynny. Mae Gwyn, fy mrawd bach, ychydig bach yn od.

‘Bwyta dy dost yn iawn, Sara,’ meddai Mam. ‘A bwyta di hefyd, Gwyn.’

Plygodd Gwyn dros ei blât, a thorri ei dost yn sgwariau bach, fel mae e’n hoffi ei wneud.


‘Paid â bod mor ffyslyd, Gwyn,’ meddai Dad. ‘Dere nawr, os brysiwch chi, fe alla’ i gerdded draw gyda chi i’r cynllun haf ar y ffordd i’r gwaith.’



Mae'r cynllun haf yn cael ei gynnal yn yr ysgol wrth ymyl ein stad ni. Mae'n para am fis cyfan y tro hwn. Mae plant y stad i gyd yn mynd yno. Rydyn ni i gyd ychydig yn hŷn na Gwyn, ond mae Gwyn yn glyfar, felly fe ddywedon nhw ei fod e'n gallu mynd hefyd.

'Dwi ddim eisiau mynd,' meddai Gwyn eto. Ond dywedodd Dad fod yn rhaid iddo fynd.

'Bydd e'n hwyl a bydd hynny'n gwneud lles i ti,' meddai Dad.



Cydiodd Rhodri, un o'r bobl oedd yn helpu, yn llaw Gwyn.

'Gwena, Gwyn bach,' meddai. 'Beth hoffet ti ei wneud bore 'ma, 'te?'

'Dwi eisiau chwarae pêl-droed,' meddwn i. 'Dere i wylio, Gwyn.'

Dywedodd Rhodri fod yn rhaid i Gwyn ddewis gweithgaredd ei hunan. Doedd Gwyn ddim eisiau chwarae pêl-droed na gwneud jiwdo na mynd ar y trampolîn.





‘Beth am wneud car model?’ gofynnodd Rhodri.

‘O’r gorau,’ meddai Gwyn.

Mae Gwyn, fy mrawd bach, yn un da am wneud modelau. Mae ganddo anifeiliaid clai yn cerdded ar hyd silffoedd ein hystafell wely ac mae ei awyrennau bach yn gwibio uwch ein pennau.

Roedd Gwyn yn hoffi'r syniad o wneud ceir model. Roedd e'n meddwl mai ceir bach fydden nhw, ond rhai mawr oedd y ceir model hyn. Roedd rhywun arall yn dangos i'r plant sut roedd gwneud ceir gydag olwynion ac estyll pren. Roedd y ceir yn ddigon mawr i'w gyrru.

Gwnaeth Gwyn ei gar model ei hun gydag ychydig o help, dim problem. Aeth i mewn iddo hefyd a'i yrru'n araf am ychydig bach.





Ond roedd llawer o fechgyn mawr yn gwneud
ceir model hefyd. Llew Mawr oedd y bachgen
mwyaf ohonyn nhw i gyd. Mae Llew Mawr yn
enwog ar ein stad ni. Mae pawb yn ceisio cadw
allan o'i ffordd.



Gwnaeth Llew Mawr gar mawr. Gyrrodd e fel car taro yn y ffair. A dyna wnaeth e hefyd. Taro'n syth i mewn i gar Gwyn.

Syrthiodd Gwyn allan o'i gar. Cafodd ergyd ar ei ben a sgathru ei ddwylo. Gwnaeth ei orau glas i beidio â chrio ond lwyddodd e ddim.



Daeth Rhodri i'w godi a'i gysuro. Dywedodd wrth Llew Mawr ei fod yn ddigon mawr i wybod yn well.

'Druan â Gwyn bach,' meddai Rhodri.

Tynnodd Llew Mawr ystumiau ofnadwy ar Gwyn.

'Druan â Gwyn bach!' meddai, gan ddynwared Rhodri. 'Y babi Mam twp. Rwyd ti'n edrych fel merch gyda'r holl wallt hir 'na. Rwyd ti'n fwy tebyg i Gwen. Ie. Dyna dy enw newydd di, Gwen.'





Pennod 2

DOEDD GWYN, FY MRAWD, ddim yn hoffi ei enw newydd o gwbl.

‘Gwyn yw fy enw i,’ meddai. ‘Nid Gwen.’

Roedd Llew Mawr yn dal i’w alw’n Gwen. Felly gwnaeth y bechgyn eraill hynny hefyd. Yna, dechreuodd y merched hefyd. Erbyn i ni fynd adref, roedd pawb yn ei alw’n Gwen.

Aeth wyneb Gwyn yn goch fel tân. ‘Gwyn yw f’enw i,’ meddai. ‘Byddwch ddistaw, bawb, wnewch chi? Peidiwch â galw enwau dwl arna i.’

Dwi'n casáu gweld pobl eraill yn tynnu coes Gwyn. Dwi'n tynnu ei goes e weithiau, ond mae hynny'n wahanol. Fi yw ei chwaer fawr e.

Dwi'n fawr, ond ddim mor fawr â hynny. Dwi ddim yn agos mor fawr â Llew Mawr. Doeddwn i ddim yn gallu ei *orfodi* i gau ei hen geg.

'Gwen,' bloeddiodd Llew Mawr, a rhedeg ei law dros wallt Gwyn a'i bwnio yn ei frest. Rhoddodd sawl ergyd iddo, hyd nes bod Gwyn yn cwympo i'r llawr. Eto.



Dyma fi'n ei dynnu ar ei draed yn gyflym, ond roedd Rhodri wedi fy ngweld a gofynnodd a oedd Gwyn yn iawn.



Ddywedais i ddim byd. Dwi'n gwybod y dylet ti ddweud wrth rywun os wyt ti mewn helynt. Ro'n i'n gwybod hefyd y gallai Llew Mawr a'i ffrindiau fynd yn waeth petaen ni'n dweud.

'Dwi'n iawn, diolch,' meddai Gwyn yn dawel iawn.

Roedd hi'n hawdd twyllo Rhodri, ond roedd hi'n amhosib twyllo Mam.

‘Gwympaist ti, Gwyn?’ gofynnodd. ‘Edrych ar dy bengliniau di, cariad! A’r dwylo ’na! A beth yw’r lwmpyn ’na ar dy ben?’

‘Dim byd!’ meddai Gwyn.

Roedd Mam yn dal i roi cwtsh iddo pan ddaeth Dad adref.



‘Helô, blant! Gawsoch chi hwyl yn y cynllun haf?’ gofynnodd yn eiddgar.

‘Ches i ddim llawer o hwyl, Dad,’ meddai Gwyn.

‘Roedd Llew Mawr yn ei wthio i’r llawr o hyd!’

meddai Mam. 'A dweud y gwir, roedd pawb yn pigo ac yn galw enwau arno fe. Dydy e ddim yn mynd 'nôl.'

'Dwi ddim eisiau mynd 'nôl,' meddai Gwyn.

Ond roedd yn rhaid iddo fynd 'nôl. Dywedodd Dad.

'Mae'n rhaid iddo fe ddysgu ymdopi. Dwi'n credu dy fod ti'n rhoi gormod o faldod iddo fe. Mae'n rhaid iddo fe galedu ychydig bach,' meddai Dad.

Cafodd Mam a Dad ffrae fawr. Aeth Gwyn a fi i'n hystafell wely allan o'r ffordd. Gwnaeth Gwyn fodel clai o Llew Mawr. Daeth yr awyrennau bach i ymosod arno fe. Fe gawson ni hwyl. Roedd Gwyn yn edrych yn hapusach.



Doedd e ddim yn edrych yn hapus yn y bore.

‘Mae Dad yn dweud y dylet ti roi un cynnig arall ar y cynllun haf, Gwyn,’ meddai Mam.

‘Dwi ddim eisiau,’ meddai Gwyn.

‘Mae’n rhaid i ti ddysgu sut mae dod ymlaen â’r bechgyn eraill, Gwyn,’ meddai Dad.

‘Dydyn nhw ddim eisiau bod yn ffrindiau, Dad,’ meddai Gwyn.

‘Mae hyn yn ofnadwy! Maen nhw’n llawer mwy na fe!’ meddai Mam. ‘Edrych, dydy e ddim yn mynd. Fe gaf i ddiwrnod yn rhydd o’r gwaith i ofalu amdano fe.’

‘Dwyt ti ddim yn gallu cael dyddiau’n rhydd o’r gwaith o hyd. Byddi di’n colli dy swydd,’ meddai Dad.

‘Wel, efallai y gall Mam-gu ofalu amdano fe,’ meddai Mam.

‘Na, mae Gwyn wedi mynd yn feddal oherwydd ei fod e’n mynd draw at Mam-gu mor aml,’ meddai Dad.

Plygodd Gwyn ei ben dros ei blât a thorri ei dost yn sgwariau pitw bach.

‘Paid â phoeni, Gwyn,’ sibrydais. ‘Fe ofalaf i amdanat ti.’

Ond doeddwn i ddim yn siŵr fy mod i’n gallu.



Pennod 3

YR EILIAD Y gwelon nhw Gwyn, dechreuodd y plant weiddi.

‘Gwen! Dyma Gwen yn dod!’

Daeth Llew Mawr draw aton ni.

‘Www, edrychwch, mae Gwen fach wedi dod!’ meddai.

Cydiais ym mraich Gwyn a’i arwain i ffwrdd.

Daeth Llew Mawr ar ein holau.

‘Hei, Gwen, dwi’n siarad â ti.’

‘Wel, dydyn ni ddim eisiau siarad â ti, ydyn ni, Gwyn?’ meddwn i.

Daeth Nia draw, un o’r bobl eraill oedd yn helpu.

‘Ydy popeth yn iawn, blant?’ gofynnodd. ‘Reit
’te, pa weithgaredd mae pawb yn mynd i’w
wneud heddiw?’ ‘Rydyn ni’n mynd i rasio ceir,’
meddai Llew Mawr. ‘Brrm, brrm, i ffwrdd â ni!
Dewch, fechgyn. Dere, Gwen.’

Symudodd Gwyn ddim.



‘Beth hoffet ti ei wneud heddiw?’ meddai Nia, gan gydio yn ei law.

‘Dwn i ddim beth dwi eisiau ei wneud,’ meddai Gwyn. ‘Dwi’n gwybod beth dwi *ddim* eisiau ei wneud – gwneud ceir model.’

‘Dwi’n credu y byddet ti wrth dy fodd yn chwarae gêmâu cyfrifiadur,’ meddai Nia.

Ond roedd y gêmâu cyfrifiadur mor boblogaidd, doedd dim lle ar ôl.



Crwydrodd Nia a Gwyn o gwmpas yn chwilio am rywbeth roedd e eisiau ei wneud. Es i gyda fe hefyd. Galwodd fy ffrindiau fi draw i chwarae pêl-droed gyda nhw, ond roeddwn i wedi addo gofalu am Gwyn.

‘Alla’ i ddim,’ meddwn i. ‘Mae’n rhaid i mi ofalu am fy mrawd.’

‘Beth am ddrama?’ meddai Nia, wrth i ni gerdded heibio i ffenestri’r ystafelloedd dosbarth ar y ffordd i’r brif neuadd.



'Ie, beth am wneud drama, Gwyn?' meddwn i.
'Dwi'n dwlu ar actio.'

'Dwi ddim yn credu 'mod i'n hoffi drama,'
meddai Gwyn. Yn sydyn, arhosodd a syllu drwy
fffenest ystafell ddosbarth. 'Beth sy'n digwydd fan
'na?' gofynnodd.

'Cynllunio dillad sy fan 'na,' meddai Nia. 'Mae pob
math o hen ddillad a rubanau a blodau a phethau,
ac mae pawb yn gallu cynllunio'u dillad eu hunain.'



‘Gwnïo!’ meddwn i. ‘Diflas. Dere, Gwyn, gad i ni wneud drama.’

‘Dwi eisiau mynd i wnïo,’ meddai Gwyn.

‘Gwych,’ meddai Nia.

‘Chei di ddim gwnïo, Gwyn!’ meddwn i.

‘Rhywbeth i ferched yw e.’

‘Mae’n rhywbeth i bawb, Sara,’ meddai Nia.

Beth bynnag roedd Nia’n ei ddweud, roeddwn i’n gwybod, petai Gwyn yn cynllunio dillad, y byddai pob plentyn ar ein stad ni’n ei alw’n Gwen am byth.





Pennod 4

MAE’N AMHOSIB DADLAU â Gwyn, fy mrawd.
Dydy e byth yn rhoi’r gorau iddi.

Roedd Gwyn eisiau gwnïo. Felly dyna beth
wnaeth e.

A dyna beth wnes innau hefyd. Roeddwn i’n
meddwl ei bod hi’n well i mi gadw llygad arno.
Roeddwn i’n teimlo’n wael fy mod i wedi rhuthro
draw i chwarae pêl-droed ddoe. Ond roedd *un*
peth yn dda am hyn. Fyddai Llew Mawr ddim
eisiau gwnïo.

Roedd y ddynes oedd yn helpu gyda’r cynllunio
dillad yn edrych yn ddiddorol. Roedd ganddi

wallt hir coch, a ffrog goch a gwasgod wedi'i brodio. Edrychodd i fyny a gwenu arnon ni wrth i Gwyn a fi fynd i mewn i'r dosbarth. Edrychodd y plant eraill arnon ni hefyd.

'Hei – Gwen sy 'ma,' meddai un ferch, a dechreuodd hi a'i ffrind chwerthin yn sbeitlyd.

'Helô, Gwen,' meddai'r ddynes oedd yn helpu, gan nodio arnaf i. 

Ysgydwais fy mhen.


'Nid Gwen dw i. Sara dw i,' meddwn yn ffyrnig. 'A dyma Gwyn, fy mrawd. Does neb o'r enw Gwen yma. Ac mae unrhyw un sy'n dweud hynny'n mynd i gael cosfa.'

Syllais yn gas ar y merched. Rhoddon nhw'r gorau i chwerthin yn syth.

'O'r gorau,' meddai'r ddynes. 'Dewch i edrych drwy'r hen ddillad 'ma, Sara a Gwyn. Dewiswch unrhyw beth rydych chi'n ei hoffi. Ac yna, mae bocs yn llawn gleiniau fan hyn, a blodau ffug a rubanau a phethau draw fan 'na.'

'Waw!' meddai Gwyn, a'i lygaid yn pefrio. Dechreuodd dwrio drwy'r dillad, gan godi hen gimono o Japan a rhedeg ei law dros y sidan.





‘Paid â meiddio gwisgo
hwnna, Gwyn,’ sibrydais.

Fyddai dawnsio o gwmpas y lle
mewn ffrog ddim yn syniad da!

Wfftiodd Gwyn y syniad, ond
cadwodd y cimonio o dan ei gesail.

‘Gawn ni dorri peth o’r stwff ’ma?’
gofynnodd Gwyn.

‘Wrth gwrs,’ atebodd y ddynes. ‘Dyna’r pwynt.
Chwiliwch chi’ch dau am y pethau rydych chi
eisiau gweithio arnyn nhw ac yna fe helpaf i chi
i’w pinio nhw a dangos i chi sut mae gwnïo.’

‘Dwi’n gallu gwnïo’n barod,’ meddai Gwyn yn
ddewr.

‘Nag wyt ddim,’ meddwn i. ‘Dwi ddim yn gallu
gwnïo. Felly dwyt ti ddim chwaith.’

‘O ydw, dwi’n gallu. Dangosodd Mam-gu i mi. Dwi
wedi gwnïo botymau. A dwi’n gallu gwneud pwythau
drosodd a throsodd. Ac mae’n debyg y bydda i’n gallu
gwneud y gwnïo darluniau ’ma hefyd,’ meddai Gwyn,
gan fyseddu’r ddraig oedd wedi’i brodio ar y cimonio.

Un bach yw Gwyn, fy mrawd, ond mae ganddo
syniadau mawr.

Doedd e ddim yn gallu gwnïo cystal â hynny. Awgrymodd y ddynes ein bod ni'n ymarfer ychydig ar ddarn sgwâr o ffelt. Roedd pwythau Gwyn braidd yn fawr a sigledig. Mae'n debyg mai gwnïo oedd e, o ryw fath.

Roedd yn well na fy mhwythau i, a dweud y gwir.

'Rydych chi'ch dau'n gwneud yn dda,' meddai'r ddynes. 'Felly cewch chi ddechrau cynllunio go-iawn nawr.'

'Mae Gwen yn mynd i gynllunio ffrog,' sibrydodd un o'r merched.

Estynnodd Gwyn ei fraich wrth iddo dynnu ar edau hir. Yn fwriadol ac ar ddamwain, aeth ei benelin i mewn i ochr y ferch. Mae penelinoedd Gwyn yn finiog iawn. Efallai, dim ond efallai, ei fod e'n dysgu gofalu amdano'i hun o'r diwedd.





Pennod 5

DOEDDWN I'N BENDANT ddim eisiau gwneud ffrog i mi fy hun. Fe ddes i o hyd i bâr o hen jîns a meddwl y gallwn i dorri'r coesau a'u troi nhw'n drowsus byr.

'Syniad da, Sara,' meddai'r ddynes.

Ond es i braidd yn wyllt gyda'r siswrn. Torri, torri a thorri braidd yn rhy frwdfrydig. Ac ar ôl i un goes gael ei thorri, roedd yn rhaid torri'r llall yr un fath.

Roedd fy nhrowsus byr yn hynod o fyr. Y trowsus byrraf erioed. Roedd nhw mor fyr, roedd fy nicers yn y golwg.

‘Efallai y gallet ti wnïo ymyl fach wrthyn nhw?’ meddai’r ddynes, yn garedig.


Daeth hi â defnydd glas a gwyn a rhoi help i mi ei dorri allan. Wel, hi wnaeth yr holl waith torri, a dweud y gwir. Yna, rhoddodd hi’r darn yn sownd wrth ymylon fy nhrowsus byr â phinnau a gwnïo darn bach i ddangos i mi sut roedd gwneud. Yna, daeth fy nhro i. Roedd yn rhaid i mi wnïo. A gwnïo a gwnïo. Dyna DDIFLAS.

Doedd Gwyn ddim yn edrych wedi diflasu o gwbl. Roedd e wedi dod o hyd i siaced yn y pentwr hen ddillad. Roedd hi’n rhy fawr iddo ond roedd e’n edrych yn dda ynddi. Roedd hi’n gwneud iddo fe edrych yn llawer caletach.

‘Dwi’n ei hoffi hi,’ meddai Gwyn.

‘Gallwn ni fyrhau’r llewys,’ meddai’r ddynes.






‘Dwi’n eu hoffi nhw’n hir,’ meddai Gwyn. ‘Dwi eisiau rhoi llun ar y cefn. Un wedi’i wnïo, fel y darluniau ar y peth o Japan sydd fel gŵn gwisgo.’

‘Hmmm,’ meddai’r ddynes yn amheus, ond gwnaeth ei gorau i’w helpu. Aeth hi i chwilio am ddarn o ffelt a dysgu Gwyn sut roedd brodio blodyn bach.




‘Pwyth llygad y dydd yw hwn,’ meddai hi.

‘Llygad y dydd,’ ailadroddodd Gwyn yn ddifrifol, a dechrau brodio blodyn. Ac un arall, ac un arall.




Pwythodd am awr gyfan, hyd nes bod y ffelt yn llwyd ac yn ludiog, ac yn llawn cadwyni o lygaid y dydd crynedig.

‘Da iawn, Gwyn,’ meddai’r ddynes. ‘Fe gei di wnïo llygaid y dydd ar dy siaced nawr.’




‘Nid llygaid y dydd dwi eisiau,’ meddai Gwyn, ‘draig dwi eisiau.’

‘O. Wel . . . byddai angen misoedd o ymarfer arnat ti er mwyn gallu gwnïo draig,’ meddai’r ddynes. ‘Ond . . . dwi’n gwybod!’



Agorodd hi’r cimonio a thorri cylch yn ofalus o gwmpas y ddraig wedi’i brodio.





‘Peidiwch â’i difetha hi,’ meddai Gwyn.

Doedd dim angen iddo boeni. Gadawodd hi ymyl lydan o gwmpas y pwythau.

‘Nawr!’ meddai hi, gan roi’r ddraig yn ei lle ar gefn y siaced. ‘Y cyfan sydd angen ei wneud yw pwytho o gwmpas yr ochrau – ac mae gen ti ddraig ar dy siaced.’

‘Gwych!’ meddai Gwyn. Dyna’r math o wnïo roedd Mam-gu wedi’i ddysgu iddo. Roedd e’n camu ymlaen yn gyflym.

Erbyn amser cinio, roedd e wedi gorffen y gwaith. Roedd ganddo fe ddraig aur oedd yn anadlu llinynnau coch o dân ar gefn ei siaced. Roedd hi’n edrych yn wych.



‘Edrychwch ar siaced Gwen! Hoffwn i gael un fel yna.’

‘Wnei di ddangos i ni sut gwnest ti hi, Gwen? Gawn ni ddarn o frodwaith o’r cimonio?’

‘Wnei di wnïo’r fenyw fach o Japan ar flaen fy ffrog plis, Gwen?’

‘Efallai,’ meddai Gwyn yn ffroenuchel. ‘Beth yw fy enw i?’

Dyma nhw’n deall yn sydyn pam roedd e’n gofyn.

‘Gwyn. Gwyn yw dy enw di. Wnei di wnïo fy narn i’n gyntaf, Gwyn, wnei di?’

Helpodd Gwyn nhw gyda’r gwnïo drwy’r prynhawn ac roedd hi’n hawdd i mi ddianc a mynd i chwarae pêl-droed.

Wnes i *ddim* chwarae pêl-droed yn fy nhrowsus byr newydd. Byddai pawb wedi tynnu fy nghoes petai hynny wedi digwydd.





Pennod 6

CHWARAE PÊL-DROED wnes i bron bob prynhawn yn y cynllun haf, ond roeddwn i'n gwneud drama bob bore. Fe gawson ni amser gwych, hyd yn oed pan benderfynodd Llew Mawr a rhai o'i griw roi cynnig arni hefyd. Roedd dyn o'r enw Dan yn ein helpu oedd yn llawer, llawer mwy na Llew Mawr.

'Dylet ti ddod aton ni, Gwyn,' meddwn i. 'Rydyn ni'n cael hwyl a hanner. Rydyn ni'n mynd i wneud drama ar ddiwedd y prosiect. Beth am fod yn y ddrama hefyd?'

‘Dim diolch,’ meddai Gwyn.

‘Fydd dim problem gyda Llew Mawr, wir i ti. Mae e fel oen bach gyda Dan. Fyddai e ddim yn mentro dy alw di’n Gwen.’

‘Does neb yn fy ngalw i’n Gwen nawr,’ meddai Gwyn.

Roedd e’n dweud y gwir. Gwyn roedd pob un o’r merched yn y criw gwnio’n ei alw fe. Roedd rhai o’r bechgyn yn ei alw fe’n Gwyn Bach. Roedd yn dod yn eithaf poblogaidd. Roedd pawb yn dod â’u hen siacedi ato fe er mwyn iddo fe gael gwnïo rhywbeth trawiadol ar y cefn. Roedd e wedi defnyddio pob darn o frodwaith ar y cimoto o Japan, ond daeth y ddynes o hyd i dapestri a hen flows o’r Swistir a llenni melfed a phatrwm sêr a lleuad



arnyn nhw. Torrodd Gwyn y rhain allan yn ofalus
a'u gosod nhw a gwnïo darnau fan hyn a fan draw
ac roedd y cyfan yn wych.

Gwnaeth e wasgod sêr i'r
ddynes, hyd yn oed.

Roedd Gwyn, fy mrawd, wedi
dod yn seren fach ei hunan.

'Alla' i ddim gwneud drama,
Sara,' meddai, gan hymian yn
hapus. 'Dwi'n rhy brysur yn
gwnïo.'

Gofynnodd ein grŵp drama
ni i grŵp gwnïo Gwyn a allen
nhw ein helpu ni gyda'r
gwisgoedd ar gyfer y ddrama
ar ddiwedd y cynllun. Doedd



dim angen dim byd ffansi, gan fod y ddrama am ddau griw caled a sut roedd bachgen o un criw wedi syrthio mewn cariad â merch o'r criw arall.

Fi oedd y ferch. Y brif ran. Roeddwn i wrth fy modd am hynny.

Roedd Llew Mawr yn y criw arall. Roeddwn i'n poeni mai fe fyddai'r bachgen y byddwn i'n gorfod syrthio mewn cariad ag e. Ych a fi!

Dewisodd Dan ryw fachgen arall, a dweud y byddai Llew Mawr yn well fel arweinydd y criw. Roedd e'n hoffi'r syniad yna.

Denim Glas oedd enw ein criw ni, felly doedd dim angen gwisgoedd newydd, dim ond gwisgo ein jîns ein hunain. Lledr Du oedd enw criw Llew Mawr.

Cerddodd Llew Mawr i mewn i ystafell ddosbarth Gwyn heb guro ar y drws.

'Hei, Gwen, dwi'n clywed dy fod ti'n dda gyda gwisgoedd. Wrth gwrs dy fod ti, y babi mam! Beth bynnag, mae angen dillad lledr du ar fy nghriw i, iawn?'



‘Na, dim o gwbl,’ meddai’r ddynes oedd yn helpu. ‘Chei di ddim cerdded i mewn fan hyn a galw enwau ar bobl a rhoi gorchmynion.’

‘Dim problem,’ meddai Gwyn. ‘Fe wnaif i ddillad lledr du i ti a’r criw, Llew Mawr.’

‘Wnei di? Ie, wel, da iawn. Diolch ... Gwen.’



Dim ond nodio a gwenu wnaeth Gwyn, fy mrawd.

Roeddwn i’n meddwl bod hynny braidd yn rhyfedd.

‘Dwi ddim yn siŵr am y dillad lledr yma,’ meddai’r ddynes. ‘Does neb yn rhoi dillad lledr i ffwrdd oherwydd eu bod nhw mor ddrud. Does dim lledr gyda ni ac alla’ i ddim meddwl am unrhyw beth sy’n edrych yn debyg i ledr.’

‘Fe allaf i,’ meddai Gwyn. ‘Bagiau sbwriel plastig du. Rhai mawr cryf sydd ddim yn hollti.’

Roedd pawb yn meddwl bod hynny’n syniad gwych. Gwaith anodd oedd torri jîns esgus lledr du a siacedi esgus lledr du. Roedd yn rhaid eu gludio at ei gilydd oherwydd doedd llawer o amser i bwytho.

‘Beth am wnïo pethau ar gefn y siacedi?’ awgrymodd Gwyn. ‘Gallen ni ddefnyddio edau arian fel ei fod yn edrych fel stydiau.’

Cymerodd hyn gymaint o amser, doedd dim amser i ymarfer gyda’r gwisgoedd.

‘Ond byddan nhw’n barod erbyn y perfformiad, peidiwch â phoeni,’ meddai Gwyn.



Aeth â'r siaced blastig ddu fwyaf adref gyda fe a threulio oriau ac oriau'n pwytho ar ei ben ei hun.

'Beth wyt ti'n wneud, Gwyn?' holais. 'Pam wyt ti'n mynd i'r fath drafferth er mwyn Llew Mawr?'

'Fe gei di weld,' meddai fy mrawd a gwenu.



Fe gefais i weld, y diwrnod wedyn, pan wnaethon ni berfformmio'r ddrama ar y llwyfan. Cafodd pawb weld.

Rhoddodd Gwyn ei siaced blastig ddu newydd i Llew Mawr. Roedd hi'n gampwaith. Roedd Gwyn wedi brodio cannoedd o lygaid y dydd pinc drosti. Roedd e wedi gwnïo neges ar y cefn hefyd. *Llew Llygad y Dydd.*



‘Dwi ddim yn gwisgo’r rwtsh ’na,’ meddai Llew Mawr.

Fe geisiodd e ddwyn un o’r siacedi eraill, ond roedden nhw’n rhy fach iddo fe.

‘Mae’n rhaid i ti wisgo dy siaced dy hun,’ meddai Dan, gan wthio Llew i mewn iddi, ac yna ar y llwyfan.

Chwarddodd pawb yn uchel pan welon ni Llew yn edrych mor hurt yn ei siaced llygaid y dydd.

‘Edrychwch beth mae Gwyn wedi’i ysgrifennu i Llew Mawr!’

‘O Gwyn bach, rwyt ti mor ddoniol!’

‘Hei, Llew Llygad y Dydd, dwi’n hoffi dy flodau di!’

Does neb yn galw Gwen ar fy mrawd erbyn hyn, ond mae llysenw gwych gan bawb ar Llew Mawr!



Llew
Llygad
y Dydd

